# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | *Compact: Cytundeb Cydweithio Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector* |
| **Aelod Cabinet:** | *Cyng. Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Oedolion* |
| **Swyddog perthnasol:** | *Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol* |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **15 Medi 2026** |

## 1. Penderfyniad a Geisir:

1.1 Gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo a mabwysiadu'r Compact: Cytundeb Cydweithio Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector fel fframwaith strategol ar gyfer y berthynas rhwng y Cyngor a sefydliadau'r Trydydd Sector yng Ngwynedd.

## 2. Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:

2.1 Mae'r Compact presennol wedi bod mewn lle ers 2008 ac fe'i hadolygwyd ddiwethaf yn 2013. Ers hynny mae'r cyd-destun gweithredu wedi newid yn sylweddol o ganlyniad i bwysau ariannol, disgwyliadau deddfwriaethol newydd, datblygiadau ym maes caffael a chomisiynu, a phwyslais cynyddol ar gyd-gynhyrchu a gwerth cymdeithasol.

2.2 Mae mabwysiadu Compact diwygiedig yn darparu sylfaen glir a chyson i arwain y berthynas rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector yn y dyfodol.

## 3. Cefndir/ Cyflwyniad

3.1 Mae Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector wedi gweithio mewn partneriaeth ers nifer o flynyddoedd i gefnogi trigolion a chymunedau'r sir. Mae'r Trydydd Sector yn cynnwys ystod eang o elusennau, mudiadau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a grwpiau cymunedol sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at lesiant pobl Gwynedd a darparu gwasanaethau sy'n ategu gwaith y Cyngor.

3.2 Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad cenedlaethol, "Cyfle wedi'i Golli - Mentrau Cymdeithasol", yn adolygu sut mae awdurdodau lleol Cymru yn gweithio gyda mentrau cymdeithasol a'r Trydydd Sector. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod mentrau cymdeithasol yn gwneud cyfraniad pwysig at lesiant cymunedau, ond nad yw eu potensial yn cael ei wireddu'n llawn gan lawer o awdurdodau lleol. Nodwyd bod diffyg strategaethau cydlynol, diffyg dealltwriaeth o'r

sector, a chyfleoedd coll i gydweithio, comisiynu a chaffael gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n cefnogi datblygiad y sector.

3.3 Nododd Archwilio Cymru fod awdurdodau lleol mewn sefyllfa i wneud mwy i uchafu effaith y Trydydd Sector, sicrhau gwell gwerth am arian a gwella gwasanaethau i bobl a chymunedau. Roedd yr adroddiad yn argymell bod awdurdodau lleol yn datblygu trefniadau mwy strategol ar gyfer ymgysylltu â'r sector, yn cryfhau cydweithio ar draws adrannau, ac yn gwneud defnydd gwell o drefniadau comisiynu a chaffael i gefnogi mentrau cymdeithasol a sefydliadau cymunedol.

3.4 Mae canfyddiadau'r adroddiad yn adleisio'r materion a godwyd yn lleol drwy ymgysylltu â Mantell Gwynedd, a sefydliadau'r sector, sef anghysondeb mewn trefniadau ariannu, diffyg cydlynu corfforaethol, a'r angen i gryfhau trefniadau cydweithio a chyd-gynllunio. Mae'r Compact diwygiedig (**atodiad 1**) yn gyfle i ymateb i'r heriau hyn drwy osod egwyddorion a disgwyliadau clir ar gyfer perthynas y Cyngor â'r Trydydd Sector yn y dyfodol.

3.5 Mae trefniadau'r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector a arferai gael eu hwyluso gan Cyngor Gwynedd wedi eu hoedi ers rhai misoedd, ond bwriedir datblygu trefniadau newydd fydd yn osgoi dyblygu strwythurau ymgysylltu sydd eisoes yn bodoli, sef y Rhwydwaith Trydydd Sector Gwynedd a hwylusir gan Mantell Gwynedd. Bydd hyn yn tynhau perthynas gyda Mantell Gwynedd ac yn sicrhau cydweithio a cyd-ddatblygu tua’r dyfodol.

3.6 **Ymgynghori**

3.6.1 Nid datblygu dogfen yn unig oedd bwriad y broses ymgynghori, ond sefydlu set glir o egwyddorion a disgwyliadau i lywio'r berthynas rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector i'r dyfodol.

3.6.2 Cynhaliwyd trafodaethau buan gyda Mantell Gwynedd a swyddogion y Cyngor er mwyn sefydlu'r egwyddorion sylfaenol a ddylai lywio'r berthynas rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector yn ôl yn 2024. Roedd y trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar themâu megis ymddiriedaeth, tryloywder, cyfathrebu, cydweithio, cyd-gynhyrchu a chysondeb mewn trefniadau ar draws y Cyngor.

3.6.3 Yn dilyn y gwaith cychwynnol o sefydlu'r egwyddorion, cynhaliwyd cyfnod ymgysylltu o chwe wythnos ar ddrafft y Compact yn ystod Hydref a Thachwedd 2025. Nod y cyfnod hwn oedd profi'r egwyddorion arfaethedig a cheisio barn ehangach gan sefydliadau'r trydydd sector, rhanddeiliaid ac unigolion. Cyflwynwyd y Compact hefyd i Rwydwaith Trydydd Sector Gwynedd, a hwylusir gan Mantell Gwynedd, ar 10 Hydref 2025, gan roi cyfle i ystod eang o fudiadau gyfrannu sylwadau ar y cynnwys a'r trefniadau arfaethedig.

3.6.4 Ar y cyfan, roedd yr ymateb i'r Compact drafft yn gadarnhaol, gyda nifer o ymatebwyr yn croesawu'r bwriad i sefydlu fframwaith clir ar gyfer y berthynas rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector. Nodwyd rhai sylwadau penodol am y drafft gan gynnwys:

- Awgrymwyd y dylid ystyried defnyddio teitl mwy eglur megis "Cytundeb Partneriaeth" yn hytrach na "Compact".
- Cafwyd sylwadau ar ddyluniad y ddogfen a'r diagramau er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r egwyddor o roi trigolion Gwynedd yn ganolog.
- Teimlwyd bod angen mwy o fanylder mewn rhai rhannau o'r ddogfen er mwyn esbonio sut y byddai'r egwyddorion yn cael eu gweithredu'n ymarferol.
- Awgrymwyd y dylid pwysleisio bod cyfathrebu'n broses ddwyffordd, gyda chyfrifoldeb ar y ddwy ochr i wrando, rhannu gwybodaeth a chydweithio'n agored.
- Nodwyd pwysigrwydd cyfeirio at God Ymarfer Ariannu'r Trydydd Sector Llywodraeth Cymru a sicrhau bod egwyddorion y cod yn cael eu hadlewyrchu yn y Compact.
- Derbyniwyd nifer o awgrymiadau golygyddol a geiriol i wella eglurder a chywirdeb y ddogfen.

3.6.5 Defnyddiwyd yr adborth a dderbyniwyd i fireinio cynnwys y Compact a sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r sector.

3.7 **Pwyllgor Craffu Gofal**

3.7.1 Ystyriwyd y Compact gan y Pwyllgor Craffu Gofal ar 16 Gorffennaf 2026. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r bwriad o adnewyddu a chryfhau'r berthynas rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector a croesawyd y ffaith bod y Compact yn diweddaru trefniadau nad oedd wedi'u hadolygu ers dros ddegawd, ac yn adlewyrchu'r newidiadau deddfwriaethol a pholisi ers hynny.

3.7.2 Bu trafodaeth ar sut y bydd llwyddiant y Compact yn cael ei fesur, trefniadau cynrychiolaeth y sector, rôl Mantell Gwynedd a'r heriau ariannol sy'n wynebu sefydliadau'r Trydydd Sector. Eglurwyd mai diben y Compact yw sefydlu egwyddorion cyffredin a dangos ymrwymiad ar y cyd i gydweithio yn y dyfodol.

3.7.3 Bydd cynllun gweithredu a meysydd gwaith yn cael eu datblygu drwy drefniadau’r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector ar ei newydd wedd, gyda'r agenda a'r trafodaethau yn cael eu llywio gan y materion a'r cyfleoedd a nodir gan y sector ei hun mewn partneriaeth â'r Cyngor.

3.7.4 Croesawyd hefyd awydd y Pwyllgor Craffu i dderbyn adroddiad pellach ar weithrediad ac effaith y Compact ymhen dwy flynedd.

## 4. Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

4.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Compact. Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ystyried effaith ei benderfyniadau ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, llesiant cymunedau ac anghenion pobl â nodweddion gwarchodedig, gan sicrhau nad yw unrhyw grŵp yn cael ei roi dan anfantais o ganlyniad i'r penderfyniad.

4.2 Daeth yr asesiad i'r casgliad bod y Compact yn debygol o gael effaith gadarnhaol drwy gryfhau'r berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector, gwella cyfleoedd i ymgysylltu a chydweithio, a chefnogi gwasanaethau a gweithgareddau sy'n cyfrannu at lesiant cymunedau ledled Gwynedd.

4.3 Mae'r Compact yn cefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gryfhau cydweithio rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector er budd cymunedau Gwynedd. Mae'r egwyddorion a nodir yn y Compact yn cyfrannu'n benodol at greu cymunedau cydnerth, gwella llesiant cymdeithasol a hyrwyddo cyfranogiad a chynnwys cymunedol.

4.4 Wrth ddatblygu'r Compact, rhoddwyd ystyriaeth i'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf:

| | |
|---|---|
| **Cynnwys** | Datblygwyd y Compact mewn partneriaeth â Mantell Gwynedd, sefydliadau'r Trydydd Sector ac adrannau'r Cyngor. Cynhaliwyd cyfnod ymgysylltu cyhoeddus i roi cyfle i rhanddeiliaid gyfrannu at gynnwys y ddogfen. |
| **Cydweithio** | Prif ddiben y Compact yw cryfhau'r berthynas a'r trefniadau cydweithio rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector. |
| **Atal** | Drwy gryfhau cyfathrebu, cydweithio a chyd-ddealltwriaeth rhwng partneriaid, bwriedir lleihau'r risg o anghysondeb, dyblygu gwaith a diffyg cydlynu yn y dyfodol. |
| **Hirdymor** | Mae'r Compact yn sefydlu fframwaith ac egwyddorion hirdymor ar gyfer y berthynas rhwng y Cyngor a'r Trydydd Sector mewn cyfnod o bwysau ariannol a galw cynyddol am wasanaethau. |
| **Integreiddio** | Mae'r Compact yn cefnogi gweithio trawsadrannol a phartneriaethol, gan gydnabod cyfraniad y Trydydd Sector at gyflawni amcanion llesiant ehangach ar draws gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau Gwynedd. |

## 5. Camau nesaf

5.1 Yn dilyn mabwysiadu'r Compact, bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r ddogfen derfynol ac yn symud ymlaen gyda'r trefniadau ar gyfer ailsefydlu'r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector. Bydd trafodaethau'n parhau gyda Mantell Gwynedd ynghylch cynrychiolaeth ar y grŵp er

mwyn sicrhau ymgysylltiad eang a chynhwysol ar draws y sector, a bydd trefniadau llywodraethu a monitro priodol yn cael eu datblygu i gefnogi gweithrediad y Compact.

## 6. Sylwadau Swyddogion Statudol.

### 6.1 **Prif Swyddog Cyllid**

Rwyf yn croesawu’r adolygiad i’r Compact gyda’r Trydydd Sector. Mae diweddaru’r Compact fel fframwaith strategol ar gyfer y berthynas rhwng y Cyngor a sefydliadau'r Trydydd Sector yng Ngwynedd yn gymorth i osod allan y rolau wrth gyflawni a chefnogi amcanion y Cyngor a bydd ail-sefydlu’r Grŵp Cyswllt Trydydd Sector yn gosod momentwm newydd.

### 6.2 **Swyddog Monitro**

Mae rôl y trydydd sector yn cyflawni ac yn cefnogi amcanion y Cyngor yn amlwg. Mae’r Compact yn creu dogfen sydd yn cefnogi y bartneriaeth yma ac yn adeiladu fframwaith cyd weithio briodol i gynnal a datblygu hyn. Rwy’n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir

**Rhestr Atodiadau:**

1. *Compact: Cytundeb Cydweithio Cyngor Gwynedd a’r Trydydd Sector*
2. *Asesiad Effaith Cydraddoldeb*